LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

# Gwirfoddoli yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru

**Fersiwn Diwygiedig**

**2025**

**Mae’r ddogfen yma ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg**

# CYNNWYS

ERROR! BOOKMARK NOT DEFINED.

1. Y LLYFRGELL 3
2. GWIRFODDOLI I'R LLYFRGELL 3
3. EGWYDDORION CYFFREDINOL 4
4. HAWLIAU A CHYFRIFOLDEBAU 4
5. RECRIWTIO A DEWIS 4
6. GWIRFODDOLWYR O BELL 5
7. CYFLE CYFARTAL AC AMRYWEDD 5
8. CYNLLUN IAITH GYMRAEG 6
9. UNIGOLION SY'N HAWLIO BUDD-DALIADAU A GWIRFODDOLWYR O DRAMOR 6
10. SGRINIO 6
11. HYFFORDDIANT A DATBLYGU 6
12. GORUCHWYLIAETH A CHYMORTH 6
13. YMRWYMIAD 6
14. CYDNABYDDIAETH 7
15. TREULIAU 7
16. IECHYD A DIOGELWCH 7
17. DIOGELU GWYBODAETH A CHYFATHREBU 7
18. DATRYS GWRTHDARO 7
19. RHOI'R GORAU I FOD YN WIRFODDOLWR 7
20. CYFLAWNI'R POLISI 8
21. POLISÏAU A GWEITHDREFNAU ERAILL: 8

# 1. Y Llyfrgell

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a sefydlwyd ym 1907, yn un o lyfrgelloedd mawr y byd ac mae'n meddu ar gasgliadau digymar o lyfrau, pamffledi, papurau newyddion, cerddoriaeth, llawysgrifau, archifau, mapiau, ffotograffau, darluniau, deunydd sain a delweddau symudol. Mae hefyd yn ganolfan byd ar gyfer deunydd ymchwil ar Gymru, pobl Cymru a'r cenhedloedd Celtaidd. Fel llyfrgell adnau cyfreithiol (hawlfraint) er 1911 mae ganddi hawl i dderbyn copi o bob eitem argraffedig a gyhoeddir yn y Deyrnas Unedig ac Iwerddon. Mae ei chasgliadau yn cynnwys llyfrau hen a phrin, cyhoeddiadau tramor, o Ewrop a Gogledd America yn bennaf, a deunyddiau electronig cyfoes. Caiff y Llyfrgell ei hariannu drwy gymorth grant o Lywodraeth Cymru, a chaiff ei disgrifio fel Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru (WGSB).

### Datganiad pwrpas

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn gwerthfawrogi gwirfoddolwyr fel partneriaid hanfodol wrth ddiogelu a hyrwyddo treftadaeth ddiwylliannol Cymru. Ein nod yw darparu amgylchedd cefnogol a chynhwysol lle gall gwirfoddolwyr gyfrannu'n ystyrlon a theimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi.

# 2. Gwirfoddoli i'r Llyfrgell

Mae'r Polisi Gwirfoddoli hwn yn amlinellu'r egwyddorion eang mewn perthynas â gwirfoddoli i'r Llyfrgell. Mae'n berthnasol i wirfoddolwyr cyfredol a darpar wirfoddolwyr, ynghyd â phawb sy'n cyfrannu at recriwtio, cefnogi, datblygu a rheoli gwirfoddolwyr yn y Llyfrgell.

Y mae gwirfoddoli, cyfranogaeth gymunedol a chynhwysiad cymdeithasol yn faterion sy'n uchel ar agenda Llywodraeth Cymru a Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Y mae'r Llyfrgell yn gweld ei hun yn rhan o'r gymuned ac nid ar wahân iddi. Y mae am weld a rhoi cyfle, felly, i aelodau'r gymuned chwarae'u rhan hwythau i helpu'r Llyfrgell gyflawni ei hamcanion drwy eu hannog i gynnig eu hunain fel gwirfoddolwyr ar brosiectau a thasgau buddiol:

a) a fyddant yn ategu a hwyluso gwaith y staff cyflogedig; neu
b) nad ydyn nhw'n cael eu cyflawni gan staff cyflogedig y Llyfrgell.

Bydd gwirfoddolwyr yn cyflawni tasgau a phrosiectau elfennol, o dan oruchwyliaeth staff penodol, yn gysylltiedig â'r cynllun gwaith blynyddol, ac yn 'werth ychwanegol' i wasanaethau presennol. Sylwer na fydd y Llyfrgell o dan unrhyw amgylchiadau'n defnyddio gwasanaeth gwirfoddolwyr fel rheswm dros beidio a chyflogi staff cymwys i gyflawni gwaith.

### Manteision gwirfoddoli

Yn gyfnewid, gall gwirfoddolwyr ddisgwyl y canlynol gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru:

- **Aseiniadau Ystyrlon**: Cyfleoedd i ymgymryd ag aseiniadau sy'n werthfawr i'r Llyfrgell.
- **Datblygu Sgiliau**: Cyfleoedd i ddatblygu eu sgiliau a'u cymwyseddau.
- **Amgylchedd Mawreddog**: Y cyfle i wirfoddoli o fewn sefydliad o bwys cenedlaethol a rhyngwladol.
- **Amodau Diogel**: Amodau gwirfoddoli diogel, gyda goruchwyliaeth priodol pan gyflawnir tasgau o fewn yr adeilad.
- **Hyfforddiant ac Offer**: Darparu hyfforddiant ac offer angenrheidiol ar gyfer tasgau a gwblheir o fewn yr adeilad.
- **Tasgau Cyfatebol**: Tasgau sy'n cyd-fynd ag anghenion y Llyfrgell a, lle bo modd, â chymwyseddau a diddordebau'r gwirfoddolwyr.
- **Ad-dalu Treuliau**: Ad-dalu treuliau rhesymol, wedi'u cytuno ymlaen llaw, a'u derbynebu.
- **Cyfathrebu Uniongyrchol**: Cyfathrebu uniongyrchol â rheolwyr tasgau i drafod ac adolygu aseiniadau ar ddiwedd cyfnod prawf a gytunwyd arno ac yn achlysurol wedi hynny.

## 3. Egwyddorion cyffredinol

Ystyr gwirfoddolwyr yw pobl sy'n rhoi o'u hamser ac yn cyfrannu eu hegni a'u sgiliau'n ddi-dâl er budd y Llyfrgell.

- Mae gwirfoddoli'n weithgarwch dilys sy'n cael ei werthfawrogi, ei gefnogi, a'i annog gan y Llyfrgell, ac nid cymryd lle na disodli gwaith cyflogedig yw ei fwriad. Mae gwirfoddolwyr yn ategu staff cyflogedig, ond nid ydynt yn eu disodli na'u tanseilio mewn unrhyw ffordd.
- Er na ellir gorfodi gwirfoddolwyr, o dan gytundeb neu fel arall, i fynychu'r Llyfrgell nac i gwblhau tasgau'n ymwneud â'u gweithgarwch gwirfoddol o fewn amser penodol, y mae'n rhesymol disgwyl gweld cyd-ddeall rhwng anghenion a threfniadau'r gwirfoddolwr a'r Llyfrgell. Yn yr un modd, ni ellir gorfodi'r Llyfrgell i ddarparu tasgau rheolaidd, na thâl, nac unrhyw fudd arall am unrhyw weithgarwch a gyflawnir gan y gwirfoddolwr. Mae gan y Llyfrgell a'r gwirfoddolwr hawl i ddod â'r trefniant i ben ar unrhyw adeg.
- Er bod gwirfoddolwyr yn cynnig eu hamser am ddim a heb rwymedigaeth, mae yna ragdybiaeth mewn perthynas â chyd-ddibyniaeth a chymorth. Cydnabyddir disgwyliadau ar y ddwy ochr - beth mae'r Llyfrgell yn ei ddisgwyl gan wirfoddolwyr a beth mae gwirfoddolwyr yn ei ddisgwyl gan y Llyfrgell.

## 4. Hawliau a Chyfrifoldebau

### Hawliau Gwirfoddolwyr:

- **Disgwyliadau Clir**: Deall beth mae'r Llyfrgell yn ei ddisgwyl ganddynt a beth nad ydy'r Llyfrgell yn disgwyl iddynt wneud.
- **Tasgau Ystyrlon**: Derbyn tasgau sy'n cyd-fynd â'u sgiliau ac sy'n fuddiol i'r Llyfrgell.
- **Triniaeth Deg**: Cael eu trin yn deg ac yn gyfartal.
- **Sefydlu a Hyfforddiant**: Derbyn cyflwyniad a hyfforddiant defnyddiol a phriodol.
- **Cymorth a Goruchwyliaeth**: Cael mynediad at gymorth a goruchwyliaeth, gyda phwynt cyswllt dynodedig wrth wirfoddoli ar y safle.
- **Ad-dalu Treuliau**: Derbyn ad-daliad am dreuliau y cytunwyd arnynt.
- **Cyfleoedd Adborth**: Cael y cyfle i roi a derbyn adborth.
- **Teimlad o Berthyn**: Teimlo ymdeimlad o berthyn i'r Llyfrgell ac yn cael eu gwerthfawrogi, a pheidio â dioddef gwahaniaethu.
- **Amgylchedd Diogel**: Gwirfoddoli mewn amgylchedd diogel ac iach.

### Cyfrifoldebau Gwirfoddolwyr

- **Cydweithio**: Gweithio gyda ni i gyflawni ein nodau a'n hamcanion hyd eithaf eu gallu.
- **Annibyniaeth**: Gwirfoddoli'n annibynnol a heb oruchwyliaeth pan fo angen.
- **Dibynadwyedd**: Bod yn ddibynadwy.
- **Cyflawni Rôl**: Cyflawni eu rôl hyd eithaf eu gallu fel yr amlinellir yn y disgrifiad rôl.
- **Bydd i Bawb**: Trin gwirfoddoli fel gweithgaredd sydd o fudd i'r unigolyn a'r Llyfrgell.
- **Rhybudd**: Rhoi rhybudd rhesymol os na allant ymgymryd â gweithgareddau y cytunwyd arnynt.
- **Parch**: Parchu cyfrinachedd, cydraddoldeb, amrywiaeth, a gofynion iechyd a diogelwch.
- **Cyfarwyddyd:** Gweithredu o dan gyfarwyddyd y cydlynydd gwirfoddolwyr.
- **Cyfranogiad:** Mynychu sesiynau sefydlu, hyfforddi, adborth a chymorth perthnasol.
- **Cynrychiolaeth:** Cynnal enw'r Llyfrgell bob amser.
- **Cyfathrebu:** Hysbysu'r Llyfrgell ymlaen llaw os ydynt yn dymuno rhoi'r gorau i wirfoddoli.
- **Pryderon:** Adrodd unrhyw bryderon sy'n ymwneud â gwirfoddoli ar unwaith i'r person priodol.
- **Mwynhad:** Mwynhau eu hunain wrth wirfoddoli!

## 5. Recriwtio a Dewis

### Unigolion:

Mae gan y Llyfrgell  broses deg a chyson o recriwtio a dewis gwirfoddolwyr priodol ar gyfer pob rôl. Mae'r Llyfrgell yn recriwtio gwirfoddolwyr yn ôl yr angen ond mewn modd sy'n fuddiol i'r ddwy ochr ac yn paru

prosiectau a gweithgareddau dymunol gyda sgiliau, gwybodaeth, profiad a brwdfrydedd gwirfoddolwyr. Bydd cydlynydd gwirfoddolwyr hefyd yn trafod gofynion unigolion i sicrhau bod gwirfoddolwyr yn hapus ac yn derbyn y cymorth priodol wrth wirfoddoli.

Bydd gan bob darpar wirfoddolwr ddealltwriaeth glir o'r tasgau sydd ar gael i'w helpu i ddewis rôl sy'n briodol iddo/iddi. Darperir y wybodaeth hon ar ffurf disgrifiad cryno o bob rôl, a baratoir gan y cydlynydd gwirfoddolwyr.

**Mae yna lawer o alw am gyfleoedd gwirfoddoli, felly ni fydd pob cais yn llwyddiannus o reidrwydd.** Fodd bynnag, rydym yn sicrhau bod pob cais yn cael ei drin yn gyfartal ac yn cael ei gyflwyno i'w ystyried. Gall ymgeiswyr na chânt eu dewis cael eu rhoi ar restr aros ar gyfer y rôl honno, neu gyfleoedd eraill, os ydynt yn dymuno. Gall gwirfoddolwyr gymryd rhan mewn mwy nag un prosiect ar yr un pryd.

### Grŵpiau:

Pan fydd prosiectau neu dasgau ar gael ar gyfer grŵp o wirfoddolwyr, gall y Llyfrgell ddod i gytundeb â sefydliad/cymdeithas sydd ag aelodau addas i gyflawni'r dasg. Yn yr achos yma, bydd rôl gwirfoddoli sy'n fuddiol i'r ddwy ochr, ynghyd â'r hyfforddiant angenrheidiol, yn cael eu cytuno gyda swyddog o'r sefydliad. Cyfrifoldeb swyddog y sefydliad/cymdeithas allanol fydd darparu a goruchwylio grŵp o wirfoddolwyr addas a brwd, gan dderbyn arweiniad a chefnogaeth priodol gan staff y Llyfrgell.

## 6. Gwirfoddolwyr o bell

### Diffiniad:

Ystyr gwirfoddolwyr o bell yw pobl sy'n rhoi o'u hamser y tu hwnt i adeilad y Llyfrgell, gan gyfrannu eu hegni a'u sgiliau'n ddi-dâl er budd y Llyfrgell a'r gwirfoddolwr.

### Perthynas:

**Cefnogaeth a Rheolaeth:** Tra'n cydnabod yr her o reoli tasgau/prosiectau o bell a chyfrannu torfol, bydd y Llyfrgell yn gwneud pob ymdrech i gefnogi gwirfoddolwyr unigol, neu grwp o wirfoddolwyr, trwy gynnig arweiniad clir, canllawiau trylwyr, cyfarfodydd ar lwyfannau electronig, a phwynt cyswllt i drafod ac adolygu aseiniadau.

**Cynllunio Prosiectau:** Wrth gynllunio prosiectau, byddwn yn ystyried themâu sy'n gryf o fewn casgliad LLGC ac sy'n berthnasol i'r ardal y bydd gwirfoddolwyr yn gwirfoddoli ynddi.

## 7. Cyfle cyfartal ac Amrywedd

Mae'r Llyfrgell wedi ymrwymo i gyfle cyfartal ac mae o'r farn y dylai cyfleoedd gwirfoddoli fod ar gael i bawb, 16 oed ag yn hyn, beth bynnag fo'u:

- Rhyw
- Hunaniaeth rywiol
- Ethnigrwydd
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Anabledd
- Crefydd
- Cred

Caiff gwirfoddolwr ei dderbyn ar gyfer rôl ar sail teilyngdod, ac addasrwydd yr unigolyn i gyflawni'r tasgau dan sylw yw'r unig faen prawf. Ni fydd y Llyfrgell yn ystyried gwybodaeth am y gwirfoddolwr nad yw'n berthnasol i'w allu i gyflawni'r rôl wrth recriwtio a dewis.

Mae'r Llyfrgell yn hyrwyddo amrywiaeth mewn perthynas â'n staff cyflogedig a'n gwirfoddolwyr a'r safbwyntiau unigryw sydd ganddynt. Rydym yn ceisio denu gwirfoddolwyr o bob math o gefndiroedd a

phrofiadau a chaiff cyfleoedd gwirfoddoli eu hyrwyddo'n eang mewn ffyrdd sy'n eu gwneud yn hygyrch i ystod eang o bobl.

## 8. Cynllun Iaith Gymraeg

Yn unol â Chynllun Iaith Gymraeg y Llyfrgell bydd rhai tasgau ble mae gwirfoddolwyr yn gorfod medru gwirfoddoli a chyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg.

## 9. Unigolion sy'n hawlio budd-daliadau a gwirfoddolwyr o dramor

Mae'r Llyfrgell yn dilyn canllawiau arfer gorau a gynhyrchwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar gynnwys gwirfoddolwyr sy'n derbyn budd-daliadau lles a lwfans ceisio gwaith, ceiswyr lloches a gwirfoddolwyr o dramor. Noder mai cyfrifoldeb yr unigolyn dan sylw yw dilyn cyngor ymgynghorwyr budd-daliadau, ac ni fydd y Llyfrgell yn derbyn cyfrifoldeb am hyn. Gall y cydlynydd gwirfoddolwyr roi rhagor o fanylion i chi.

## 10. Sgrinio

Mae ein dull sgrinio gwirfoddolwyr yn cynnwys ffurflenni cais, geirda, cyfweliadau anffurfiol a datgeliad diogelwch.
Mae angen llenwi ffurflen gais ar gyfer pob rôl wirfoddoli, a gofynnir i bob ymgeisydd ddarparu dau eirda.
Mae cyfweliadau anffurfiol a chyfnod prawf yn rhoi cyfle i'r Llyfrgell a gwirfoddolwyr ddysgu mwy ac egluro trefniadau ac addasrwydd. Gall cyfweliadau anffurfiol fod yn rhan o'r broses ddewis.
Bydd datgeliad sylfaenol gan y Gwasanaeth DBS yn ofynnol. Sylwer na fydd euogfarnau na chofnod troseddol o reidrwydd yn eich atal rhag gwirfoddoli, byddwn yn ystyried pob achos yn unigol.

## 11. Hyfforddiant a Datblygu

Bydd y Llyfrgell yn sicrhau bod pob gwirfoddolwr newydd yn cael croeso cynnes ac mae sesiwn ymsefydlu anffurfiol a hyfforddiant craidd yn ofynnol ar gyfer pob rôl. Gellir cynnal y sesiwn ymsefydlu hon cyn neu ar ddiwrnod cyntaf y gwirfoddoli a bydd yn cwmpasu'r holl wybodaeth, polisïau a threfnau hanfodol i sicrhau bod gan wirfoddolwyr y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen er mwyn cyflawni eu rôl mewn ffordd gymwys a diogel. Yn dibynnu ar y project, gellir cynnal yr hyfforddiant mewn sesiwn un-i-un benodol neu drwy raglen/diwrnod hyfforddi grŵp dwys.
Mae'r Llyfrgell yn cydnabod bod rhaid i waith roi boddhad i wirfoddolwyr, ynghyd â chyfle i wneud cynnydd ac i ddatblygu'n bersonol. Byddwn yn cefnogi dysgu gydol oes trwy annog ein gwirfoddolwyr i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddiant, ynghyd âg achrediad, pan yn briodol. Byddwn yn annog gwirfoddolwyr i roi adborth dienw cyson i ni ar y gwasanaeth sy'n cael ei gynnig iddyn nhw, ac ar sut maen nhw'n bersonol yn elwa o'r tasgau gwirfoddoli, er mwyn gwella ein gwasanaeth yn gyson.

## 12. Goruchwyliaeth a chymorth

Bydd y cydlynydd gwirfoddolwyr a'r cynorthwy-ydd gwirfoddolwyr yn bwynt cyswllt canolog ar gyfer unrhyw ymholiadau cyffredinol ynglŷn â gwirfoddoli, yn ogystal â threfnu a chefnogi digwyddiadau gwirfoddoli, hyfforddiant a chyfathrebu.
Y cynorthwy-ydd fydd y pwynt cyswllt o ddydd i ddydd o fewn adeilad y Llyfrgell, tra'r cydlynydd fydd y pwynt cyswllt i wirfoddolwyr o bell. Byddant yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod aelod staff ar gael i wirfoddolwyr gysylltu ag ef/hi am gyngor arbenigol.
Mae cyfarfodydd goruchwylio rheolaidd yn gyfle da i ddarparu adborth dwy ffordd, i nodi, monitro a gwerthuso cyfraniad y gwirfoddolwr, i gydnabod cyraeddiadau ac i nodi anghenion hyfforddi unigolion.
Cynhelir adolygiad ffurfiol ar ddiwedd chwe mis cyntaf y gwirfoddolwr a phob blwyddyn wedi hynny.

## 13. Ymrwymiad

Nod y Llyfrgell yw bod mor hyblyg â phosibl a deall natur gwirfoddoli wrth gynnal ei henw da a safon uchel ei gwasanaeth. Mae disgwyliadau ymrwymiad yn dibynnu ar y rôl dan sylw, gyda'r nod o sicrhau'r trefniant mwyaf buddiol i bawb. Caiff lefel yr ymrwymiad ei hegluro o'r dechrau yn y disgrifiad o'r rôl.

Cofnodir oriau gwirfoddolwyr i nodi gwerth ymdrechion gwirfoddolwyr.

## 14. Cydnabyddiaeth

Bydd y Llyfrgell yn cynnal digwyddiad Gwerthfawrogi Gwirfoddolwyr blynyddol i gydnabod cyfraniadau ac ymroddiad ein gwirfoddolwyr yn ffurfiol.

## 15. Treuliau

Gall gwirfoddolwyr y Llyfrgell hawlio treuliau rhesymol gyda derbynebau y cytunwyd arnynt ymlaen llaw. Ni ddylai pryder am dreuliau gyfyngu ar y cyfraniad y gall gwirfoddolwr ei wneud. Gall y cydlynydd ddarparu rhagor o fanylion am hawlio treuliau teithio a threuliau eraill yn ymwneud â'r rôl.

## 16. Iechyd a diogelwch

Mae'r Llyfrgell wedi ymrwymo i ddarparu a chynnal amgylchedd diogel ar gyfer ei gwirfoddolwyr, os yn gwirfoddoli ar y safle. Bydd gwirfoddolwyr o fewn adeilad y Llyfrgell yn derbyn hyfforddiant iechyd a diogelwch priodol fel rhan o'u sesiynau ymsefydlu, a darperir dillad a chyfarpar diogelwch addas yn ôl yr angen. Bydd y cydlynydd yn cynnal asesiadau risg ar bob gweithgarwch a gyflawnir gan wirfoddolwyr. Hefyd, mae gan wirfoddolwyr ddyletswydd i ofalu am eu hunain ac eraill o'u cwmpas.
Ni all y Llyfrgell fod yn gyfrifol am iechyd a diogelwch gwirfoddolwyr y tu hwnt i safle y Llyfgell.

## 17. Diogelu gwybodaeth a chyfathrebu

Caiff gwybodaeth bersonol a gofnodir am wirfoddolwyr ei chadw a'i chynnal gyda diogelwch priodol ar gyfer cyfrinachedd a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol.

Disgwylir i wirfoddolwyr gyflwyno unrhyw waith hawlfraint wreiddiol a gynhyrchir ganddynt wrth wirfoddoli i'r Llyfrgell, a gofynnir iddynt lofnodi cytundeb hawlfraint.  Gofynnir iddynt hefyd i arwyddo 'Polisi Defnydd Derbyniol Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu' y Llyfrgell.
Os bydd y wasg neu gyfryngau eraill yn gofyn i wirfoddolwyr fynegi eu barn neu wneud sylwadau, dylai gwirfoddolwyr eu cyfeirio at y cydlynydd. Dylai unrhyw ohebiaeth gyda'r wasg neu'r cyfryngau fynd trwy Swyddfa'r Wasg y Llyfrgell yn gyntaf.

## 18. Datrys gwrthdaro

Nod y Llyfrgell yw trin pob gwirfoddolwr mewn ffordd deg, gwrthrychol a chyson.
Gall gwirfoddolwyr ddisgwyl y bydd eu barn yn cael ei hystyried a'i nodi, ac y bydd y Llyfrgell yn gweithredu arni cyn gynted a phosibl, gyda'r nod o ddarparu ateb cadarnhaol a chyfeillgar yn seiliedig ar ganllawiau'r Llyfrgell ar ddatrys gwrthdaro.
Ni all y Llyfrgell fod yn gyfrifol am unrhyw wrthdaro rhwng gwirfoddolwyr o bell a chymdeithasau / sefydliadau tra'n cyflawni prosiect tu hwnt i safle'r Llyfrgell.

## 19. Rhoi'r gorau i fod yn wirfoddolwr

Mae'r Llyfrgell yn cydnabod bod gan wirfoddolwyr hawl i roi'r gorau i wirfoddoli unrhyw bryd. Gwahoddir gwirfoddolwyr i gwblhau cyfweliad gadael anffurfiol er budd y rhaglen wirfoddoli. Dylid dychwelyd unrhyw gardiau adnabod, eiddo, cyfarpar ac ati sy'n eiddo i'r Llyfrgell.
Gall y Llyfrgell hefyd ddod â'r trefniant gwirfoddoli i ben unrhyw bryd os bydd y prosiect yn dod i ben neu os ystyrir nad yw'r trefniant o fudd i bawb mwyach a/neu os bydd y gwaith a gyflawnir yn ansafonol.

## 20. Cyflawni'r Polisi

Mae grŵp llywio wedi ei ffurfio i arwain ac i arolygu datblygiad y Cynllun Gwirfoddoli. Er mwyn sicrhau llais i bawb sy'n ymwneud â'r cynllun, mae'r grŵp yn cynnwys cynrychiolydd o bob adran o fewn y Llyfrgell, yr Undebau a'r gwirfoddolwyr.

## 21. Polisïau a gweithdrefnau eraill:

- Cynllun Strategol Cydraddoldeb
- Polisi Defnydd Derbyniol
- Polisi Cwynion

*Noder y bydd derbyn y polisi hwn yn golygu eich bod yn cydnabod a chytuno â'r egwyddorion a amlinellir. Cytundeb a wneir er anrhydedd yn unig yw hwn, ac ni fwriedir iddo fod yn gytundeb cyfreithiol.*

**Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu ym mis Ebrill 2028**